

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 16<sup>EG</sup> RHAGFYR 2020**  
**(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Diane Roberts (DR), Elen H Edwards (EHE), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (EW) a Gwydion Jones (GJ)

**1.3** Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL) a Gwynfor Davies (GD)

**1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 25<sup>AIN</sup> TACHWEDD 2020**

Cywiro fod REW yn bresennol a fod GD wedi ymddiheuro. Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan MD.

**4 MATERION YN CODI**

DR yn adrodd fod Covid-19 yn atal y warden cŵn rhag dod i Langernyw, maent am ysgrifennu at berchenog y ci.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** 0/47989 dim sylw, cytunwyd i gymeradwyo'r cais.

**6 MATERION ARIANNOL**

**6.1** Trafododd CR fod y dyddiad ar gyfer y precept wedi ei nodi fel 22ain Ionawr – atgoffodd DR fod angen iddi dderbyn y wybodaeth gan GD cyn y dyddiad. DR am gysylltu efo GD i drefnu cael y dogfennau.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Wedi gyrru ymddiheuriadau oherwydd amgylchiadau personol. Wedi gyrru ebost o flaen llaw i ddweud fod rhan fwyaf o'r gwaith oedd angen eu gwblhau wedi cael ei wneud bellach. CR yn gofyn os oes diweddariad ar swyddfa bost Llangernyw, EHE yn adrodd fod y gwasanaeth yn wythnosol ond ddim y gwasanaeth llawn rhwng 1:30pm-4:30pm ar ddydd Mawrth a 12:30pm – 3:30pm ar ddydd Iau. CR yn nodi fod nodyn ar ddrws y siop i ddweud pryd mae'r swyddfa bost ar agor.

**8 BILIAU**

**8.1** Enlli £42.68 (yn cynnwys ôl daliad fel drafodwyd), cytunwyd i dalu.

**9 MATERION LLEOL**

AV – wedi ysgrifennu at Darren Millar yn ddiweddar ynglyn â'r swyddfa bost yn Llangernyw a fod y siop yn cau yn Llanfair Talhaearn (bydd y swyddfa bost a loteri dal i fod yn agored yno) a fod y toiledau yn y pentref dal ar gau yn dilyn llifogydd. EHE yn adrodd fod y rheswm fod y siop yn Llanfair Talhaearn yn bersonol hefyd dim ond wedi cael trafferthion yn sgîl Covid-19 a llifogydd ayyb. REW yn gofyn os oedd y siop ar osod i rywun arall gymeryd y busnes drosodd, adroddodd AV fod Darren Millar wedi bod yn y siop wythnos diwethaf yn trafod y mater. Adroddiad am y llifogydd yn Llanfair Talhaearn yn gynharach eleni wedi dod allan yn ddiweddar.

Diolch i Jane Roberts am wneud paned i'r criw sydd yn dod efo'r sgipiau i Langernyw bob tro maent yn dod i'r pentref. Elwen Owen wedi bod yn cwyno am faw/mwd ar y palmant ger Cofgolofnau'r Dyffryn. AV am gysylltu efo'r Cyngor Sir am hyn.

Lori cyngor sir wedi bod yn glanhau'r ffordd ger Coed Digan yn ddiweddar ond heb glirio'r mwd sydd yn achosi'r broblem.

Tŷ ar osod yn Glan Collen (ebost diweddar wedi cael ei yrru am hyn gan GLL), dim diweddariad ar hyn. REW yn nodi fod angen hysbysu hyn rhagofn fod rhywun lleol

**DR** - am ddiolch i griw Nadolig Bro Cernyw am yr holl waith aeth i wneud y diwrnod yn llwyddianus. CR yn ategu fod y diwrnod wedi bod yn hwb i ysbryd yr ŵyl yn y gymuned yn Llangernyw. EHE yn dweud fod Clwb Ffermwyr Ifanc wedi cael eu hysbrydoli i wneud rhywbeth tebyg yn Ysbyty Ifan. REW yn dweud fod Sion Corn yn mynd i Gwytherin dydd Gwener hefyd.

**EHE** - yn dilyn pwyllgor llywodraethwyr Ysgol Bro Cernyw. Prosiect natur Bro Cernyw sydd wedi ei drafod yn ddiweddar - problem efo'r darn tir sydd wedi ei ymrwymo tan 2028 efo Sports Wales a Chymdeithas Chwaraeon Bro Cernyw a'r ysgol. Nodi fod angen dewis darn arall o dir sydd yn addas ar gyfer y prosiect yn fuan.

## **10 CYFARFOD NESAF**

13<sup>eg</sup> Ionawr 2021 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan